



Cyngor Bro Morgannwg

Crynodeb o'r Cynllun Gwella

Arolwg ar Berfformiad 2013/14



● Cyflwyniad

Bob blwyddyn, bydd Cyngor Bro Morgannwg yn llunio ei Gynllun Gwella Rhan 2 sef Arolwg Blynyddol ar Berfformiad sy'n dangos yr hyn a gyflawnodd y Cyngor yn ystod y flwyddyn flaenorol. Mae'r crynodeb hwn yn cynnwys prif wybodaeth y Cynllun ac yn adrodd am ein cynnydd o safbwynt cyflawni'r wyth amcan gwella a osodasom i ni'n hunain yng nghynllun blaengar 'Cynllun Gwella Rhan 1: Amcanion Gwella 2013/14' a gyhoeddwyd ym Mehefin 2013. Mae'r cynllun llawn i'w weld ar wefan y Cyngor drwy fynd i: www.valeofglamorgan.gov.uk.

Amcanion Gwella 2013-14	Meysydd Canlyniadau'r Cynllun Corfforaethol (2013-17)	Ein hasesiad
1. Hyrwyddo ymarferion cynaliadwy yn ein gwaith gan ganolbwyntio'n benodol ar leihau gwastraff a'r gyfran o'r gwastraff sy'n cael ei gladdu yn y ddaear a sicrhau bod mwy o ailgylchu.	Yr Amgylchedd Lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd	Cyflawnwyd
2. Cymryd llai o amser i ddarparu 'grantiau cyfleusterau i'r anabl' ar gyfer plant a phobl ifanc, fel y bo ein perfformiad lawn cystal o leiaf â pherfformiad Cymru'n gyffredinol yn ystod 2011/12.	Tai Rhoi cymorth a chyngor	Cyflawnwyd
3. Cynyddu nifer gofalwyr maeth y cyngor.	Plant a Phobl Ifanc Diogelu ein plant a'n pobl ifanc fregus	Cyflawnwyd
4. Cefnogi a herio ysgolion er mwyn gwella lefelau cyrhaeddiad disgyblion Cyfnod Allweddol 3.	Dysgu a Sgiliau Gwella cyflawniad a phresenoldeb yn ein hysgolion a'n canolfannau dysgu	Cyflawnwyd
5. Gweithredu cynlluniau effeithiol a chynaliadwy ar gyfer gweithlu'r Cyngor.	Arweiniad Cymunedol Rheoli ein hadnoddau	Cyflawnwyd
6. Cysylltu'n well â dinasgyddion drwy sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu datblygu a'u gwella gyda golwg ar farn trigolion, a bod mwy o gyfle i drigolion ddylanwadau ar benderfyniadau, a gwell darpariaeth ar gyfer hynny.	Arweiniad Cymunedol Gwneud cwsmeriaid yn ganolbwynt y ddarpariaeth	Cyflawnwyd
7. Mynd i'r afael ag effaith newid hinsawdd gan ganolbwyntio'n benodol ar reoli'r perygl o lifogydd lleol a pheryglon arfordirol.	Yr Amgylchedd Gwarchod a chynnal a chadw'r amgylchedd	Cyflawnwyd
8. Lleihau nifer y bobl ifanc rhwng 14 a 19 oed nad ydynt mewn gwaith nac addysg nac yn dilyn hyfforddiant.	Dysgu a Sgiliau Gwella sgiliau, gwybodaeth a chyfleodd	Cyflawnwyd yn rhannol




Sgwâr y Brenin, y Barri
Llyn y Cnap, y Barri
Machlud haul ym Mhenarth

● Arolwg Cyffredinol ar Berfformiad


Ein perfformiad yn ôl dangosyddion perfformiad cenedlaethol

Casglwyd a disgrifiwyd data ar gyfer 44 o ddangosyddion perfformiad cenedlaethol yn 2013/14. Mae gan 43 o'r rhain ddata y gellir ei gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Yn y gorffennol, bu'r Fro'n perfformio'n dda o'i chymharu â chynghorau eraill Cymru a dengys y graffau fod y duedd honno'n parhau.

Crynhoi perfformiad 2013-14



Nifer y Dangosyddion fesul Chwarter rhwng 2011/12 a 2013/14



Dyma'r data cywir ar 6 Hydref 2014

Bu'r Fro'n perfformio'n well na Chymru'n gyffredinol yn ôl 25 (58%) o'r holl ddangosyddion 'cymaradwy' ac yn ôl 24 (56%) o'i chymharu â De-ddwyrain Cymru. Roedd ein perfformiad ar ei orau yn y meysydd canlynol:

- Ni adawodd unrhyw Blant dan Ofal addysg orfodol heb gymhwyster allanol cymeradwy;
- 100% o'r holl ddatganiadau o anghenion addysgol arbennig a gyflwynwyd cyn pen 26 wythnos;
- Roedd ein perfformiad o safbwynt presenoldeb mewn ysgolion uwchradd (93%) yn ein gosod ymhlith y 25% uchaf o berfformwyr gorau Cymru;
- 100% o anghenion gofalwyr oedolion a gafodd eu hasesu;
- 100% o'r holl leoliadau ar gyfer Plant dan Ofal a oedd yn dilyn cynllun gofal o'r cychwyn;
- 100% o'r gofalwyr ifainc a oedd yn hysbys i'r gwasanaethau cymdeithasol a gafodd eu hasesu;
- Cymerwyd camau i droi mwy o dai gwag segur yn y sector preifat yn gartrefi unwaith eto.



Pwynt Rhws

Sain Hilari


Farchnad, y Barri

Mae'n rhaid i ni hefyd wella mewn meysydd lle nad yw ein perfformiad gystal ag yng ngweddill Cymru. Mae'r problemau hyn yn cael eu trin yng nghynlluniau perthnasol y Cyngor ac yn cynnwys:

- Lleihau'r cyfnod o aros ar gyfer grantiau cyfleusterau i'r anabl;¹
- Clirio tomenni ysbwriel anghyfreithlon cyn pen 5 niwrnod gwaith;
- Denu mwy o bobl i wneud ymarfer corff yn ein canolfannau hamdden;
- Sicrhau bod mwy o sefydliadau bwyd yn cydymffurfio â'r safonau hylendid priodol.

Cytundeb â Llywodraeth Cymru ynglŷn â Chanlyniadau 2013-2016)

Gwnaethom gryn gynydd tuag at gyrraedd y nodau a bennwyd yn ein Cytundeb Canlyniadau â Llywodraeth Cymru² ar gyfer 2013-2016. Casgliad dros dro'n unig yw hwn am iddo gael ei seilio ar hunanasesiad. Petai'n cael sêl bendith Gweinidog Llywodraeth Cymru, byddai gennym £1.2 o filiynau o arian ychwanegol ar gyfer gwella gwasanaethau i drigolion y Fro.



Llyfrgell y Sir, y Barri
Hen weithiau calch, Aberddawan
Parc sglefrio yn y Bont-faen

Gweithio fel rhan o bartneriaeth a Chydweithio

Rydym yn dal i gydweithio'n lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol â phob math o wahanol sefydliadau o'r sectorau cyhoeddus a phreifat, a'r trydydd sector er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r materion mwyaf cymhleth sy'n wynebu ein dinasyddion a'n cymunedau. Drwy'r partneriaethau hyn, byddwn yn llwyddo i weithio'n fwy effeithiol ac effeithlon, a darparu gwell gwasanaethau ar gyfer ein dinasyddion. Dyma'r hyn a gyflawnwyd yn bennaf drwy weithio fel rhan o bartneriaeth:

- Gwellodd ein canlyniadau ar gyfer oedolion mewn addysg a newidiwyd ein statws yn ôl safonau Estyn³ o 'wael' i 'dda' o ganlyniad.
- Mae'r trefniadau â Phrosiect Gwyrdd ar gyfer sefydlu cyfleustra trin gwastraff a fydd yn ein harbed rhag anfon cymaint o wastraff i safle tirlenwi, yn symud yn eu blaen yn hwylus. Bydd hon yn ffordd fwy costeffeithiol o symud gwastraff yn y pendraw, ac o gymorth i'r Cyngor beidio â chael ei ddirwyo yn y dyfodol am anfon gwastraff i safle tirlenwi.
- Bu ein partneriaeth adfywio gwledig, Cymunedau Gwledig Creadigol, yn cydweithio â nifer o gynghorau ar draws Cymru ar brosiectau cydweithredol, gan ddefnyddio nawdd oddi wrth Lywodraeth Cymru ac o Ewrop. Mae prosiect 'Community Foodie', sy'n cael ei gynnal ar y cyd â chynghorau Pen-y-bont ar Ogwr a Thorfaen yn helpu cymunedau i dyfu eu bwyd eu hunain, a bu'n llwyddiannus ar draws y Fro yn Ninas Powys, Treoes, Y Bont-faen, Y Wig a Llanbedr-y-fro. Mae 'Pub is the Hub' yn brosiect a gynhelir ar y cyd ar draws 8 sir, sy'n helpu i ddarparu gwasanaethau ar gyfer cymunedau yn y Fro, drwy dafarnau. Mae'r rheiny'n cynnwys siopau newydd yn Llancarfan, Moulton a Llanfleiddan.
- Drwy Brosiect Ynni Cyd Cymru, yr oedd cyfle i drigolion newid cynlluniau ynni gyda'i gilydd ac arbed costau ynni. 373 o bobl a oedd wedi cofrestru ar gyfer y cynllun yn ystod y flwyddyn ac 861 o bobl a newidiodd cynllun drwy'r llinell gymorth ynni. Ar gyfartaledd, yr oedd cwsmeriaid yn arbed £152 y flwyddyn.

¹ Grantiau oddi wrth y Cyngor sy'n helpu i dalu am addasu eiddo ar gyfer pobl anabl yw Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl.

² Mae'r Cytundeb Canlyniadau rhwng Llywodraeth Cymru a'r Cyngor yn egluro sut y byddwn yn gweithio tuag at wella gwasanaethau ar gyfer dinasyddion a chymunedau'r Fro yng nghyd-destun blaenoriaethau cenedlaethol Llywodraeth Cymru. Mae'r cytundeb tair blynedd yn cynnwys grant a delir bob blwyddyn yn ôl pa mor llwyddiannus y bu'r Cyngor o safbwynt cyrraedd ei nodau.

³ Estyn yw'r Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru sy'n archwilio ansawdd a safonau addysg a darparwyd hyfforddiant Cymru.

- Mae nifer o brosiectau'n cael eu darparu ar draws Caerdydd a'r Fro â nawdd o Gronfa Cydweithredu Rhanbarthol, a Chronfa Gofal Cyfamserol sy'n helpu pobl hŷn i fod yn fwy annibynnol a byw yn eu cartrefi eu hunain am fwy o amser. Yn ystod 2013/14, cyflwynwyd proses asesu newydd ar gyfer gwasanaethau dydd Llety â Chymorth. Drwy ddefnyddio technoleg gynorthwyol, llwyddwyd i arbed dros £20,000 hyd yn hyn, ac y mae pob argoel y cawn arbed rhagor yn ystod y flwyddyn i ddod. Mae gwasanaethau'n haws eu defnyddio ers i ni uno staff gofal cymdeithasol ac iechyd cymunedol mewn tri Thîm Adnoddau Cymunedol ar draws Caerdydd a'r Fro. Rydym wedi ailgynllunio tai yn ardal Redlands er mwyn helpu trigolion i fyw'n fwy annibynnol. Rydym yn gwella profiad defnyddwyr y gwasanaeth ac yn lleihau costau drwy gydweithio â dau sefydliad gwirfoddol er mwyn cynnig cymorth cyffredinol fel siopa, gwneud paned, cadw cwmni ac ati.

Barn ein rheolwyr amdanom

Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol Archwilydd Cyffredinol Cymru'n rhoi darlun da o'n cynlluniau ar gyfer gwella gwasanaethau. Mae'r adroddiad yn casglu bod 'y Cyngor yn gryf ar y cyfan o ran ei allu i wella'r rhan fwyaf o wasanaethau, a'i fod yn ymateb yn dda i her. Serch hynny, y mae ganddo dipyn o le i wella o safbwynt darparu grantiau cyfleusterau i'r anabl, a rheoli'r contract hamdden'. Mewn ymateb i hyn, y mae'r Cyngor yn cynllunio ar gyfer ymdrin â'r gwendidau yn y gwasanaethau a nodwyd.

Ein Cyllideb

Yn y cyfnod hwn o gynni ariannol cynyddol, y mae'n rhaid i ni arbed llawer iawn o arian yn ystod y tair blynedd nesaf, a hefyd barhau i wella gwasanaethau ar gyfer ein cwsmeriaid. Dim ond drwy weddnewid ein dulliau o weithio a darparu gwasanaethau y deugn i ben â hyn. Ar y cyd â'n prif randdeiliaid a phartneriaid, bydd yn rhaid i ni bwysu a mesur dulliau eraill o ddarparu holl wasanaethau'r Cyngor am mai dyna'r unig obaith fydd gennym o allu cynnal gwasanaethau i safon dderbyniol.



Ogmore

St Brides Major

Pont y Werin

● Crynhoi ein cynnydd yn ôl ein Hamcanion Gwella ar gyfer 2013/14

Ar sail ein hunanasesiad, casglwn fod y Cyngor wedi llwyddo ar y cyfan i sicrhau llawer o ganlyniadau cadarnhaol ar gyfer trigolion y Fro. Cyflawnwyd 7 o'r 8 Amcan Gwella a osodwyd am y flwyddyn, ac un yn unig oedd heb ei gyflawni'n llwyr. Serch hynny, blaenoriaethau strategol ar gyfer y Cyngor yn y tymor hir yw'r rhain, a man cychwyn yn unig i raglen hir o gynlluniau ar gyfer gwella gwasanaethau i ddinasyddion y Fro yw llwyddiant 2013/14. Mae'r gwaith parhaol hwn yn cael ei adlewyrchu yn ein cynlluniau cyngor.

I. Hyrwyddo ymarferion cynaliadwy yn ein gwaith gan ganolbwyntio'n benodol ar leihau gwastraff a'r gyfran o'r gwastraff sy'n cael ei gladdu yn y ddaear, a sicrhau bod mwy o ailgylchu.

Casglwn fod y Cyngor wedi cyrraedd ei nodau arfaethedig ar gyfer y flwyddyn, am iddo gyrraedd ei darged statudol ar gyfer ailgylchu cymysg, flwyddyn ymlaen llaw. Serch hynny, wrth ein cymharu â gweddill Cymru, y mae'n amlwg y bydd yn rhaid i ni weithio gryn dipyn eto er mwyn cyrraedd y targedau llym ar gyfer ailgylchu ac arbed tirlenwi y bydd Llywodraeth Cymru'n eu gosod yn y dyfodol.

Yn gyffredinol, yr ydym yn parhau i anfon llai o wastraff i safle tirlenwi. Roedd 54.77% o holl wastraff y Fro'n cael ei baratoi ar gyfer ei aildefnyddio, ei ailgylchu neu'i gompostio, a chawsom ein rhestru'n 10fed ymhlith 22 awdurdod lleol Cymru am ein perfformiad. Drwy roi mwy o gyfle i drigolion ailgylchu ei wastraff pydradwy, llwyddwyd i gasglu mwy o wastraff pydradwy ar gyfer ei ailgylchu.

Dangosodd adroddiad Meincnodi Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (2012/13) fod y Fro'n cynnig gwasanaeth rheoli gwastraff costeffeithiol. Ar gyfartaledd, gwariwyd llai na £3 yr wythnos fesul teulu ar gasglu gwastraff y cartref. Rhestrwyd y Fro'n ail orau yng Nghymru am y maint o fwyd a gasglodd fesul teulu – sef 97 cilogram ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn – ac yn wythfed am y maint o ddeunydd ailgylchu sych a gasglodd (mymryn yn llai na 12,000 o dunelli metrigr ar draws yr ardal).

Bydd yn rhaid i ni ddenu mwy o bobl i fanteisio ar ein cynlluniau ailgylchu ymyl y palmant, gwastraff bwyd a gwastraff yr ardd os ydym am gyrraedd targedau gwastraff cenedlaethol yn y dyfodol. Byddwn yn targedu unigolion a chymunedau drwy ein hymgyrch 'beth sy' yn eich bin?', sioeau teithiol, curio wrth ddrysau ac ymgyrchoedd yn y cyfryngau. Drwy dargedu ardaloedd penodol, yr ydym wedi llwyddo i godi nifer yr ailgylchwyr mewn rhannau o'r Fro a fu gynt yn gyndyn iawn i ailgylchu.

2. Cymryd llai o amser i ddarparu 'grantiau cyfleusterau i'r anabl' ar gyfer plant a phobl ifanc fel y bo ein perfformiad lawn cystal o leiaf â pherfformiad Cymru'n gyffredinol yn ystod 2011/12 (sef 326 o ddiwrnodau).

Mae'r amcan hwn wedi'i gyflawni am i ni ragori ar ein targed o 326 o ddiwrnodau o 42 o ddiwrnodau. Serch hynny, wrth ein cymharu â gweddill Cymru, y mae'n amlwg y bydd yn rhaid i ni weithio'n galetach er mwyn cwtogi'n fwy fyth ar amserau aros.

Byddwn yn parhau i wella ein darpariaeth o grantiau cyfleusterau i'r anabl yn ystod 2014/15, drwy gyflogi rhagor o therapyddion galwedigaethol fel na fo'n rhaid i gleient aros gyhyd am gael ei asesu. Byddwn hefyd yn gweithredu system contractwyr newydd a fydd yn cyflymu'r broses darparu grantiau cyfleusterau. Mae tystiolaeth bellach fod y camau hyn yn dechrau dwyn ffrwyth, felly byddwn yn rhoi ein holl fryd o hyn ymlaen ar gynnal y cynnydd.

Sicrhawyd canlyniadau cadarnhaol ar gyfer pobl a dderbyniodd Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl yn ystod 2013/14, a dywedodd 97% o'r bobl hyn eu bod, oherwydd y cymorth, yn fwy diogel ac yn fwy annibynnol yn eu cartrefi eu hunain. Roedd hyn yn rhagori ar y 90% a gofnodwyd y llynedd. Roedd pob un o'n cwsmeriaid yn fodlon ar broses darparu'r grantiau, ac unwaith eto, yr oedd hyn yn rhagori ar y ganran o 94% a gofnodwyd y llynedd. Barnodd pob cwsmer hefyd fod safon y gwaith a wnaethpwyd yn eu cartrefi un ai'n 'dda' neu'n 'dda iawn'. 127 o oedolion a gafodd gymorth i fwy'n fwy annibynnol yn eu cartrefi eu hunain yn ystod y flwyddyn, o'u cymharu â 86 yn ystod y flwyddyn flaenorol.



Stryd Fawr, y Bont-faen
Parc Alexandra, Penarth
Neuadd y Dref, Llanilltud Fawr

3. Sicrhau bod gan y Cyngor fwy o ofalwyr maeth.

Mae'r amcan hwn wedi'i gyflawni, ond byddwn yn parhau i weithio er mwyn sicrhau bod lleoliadau ar gyfer plant a phobl ifanc fregus yn haws eu cynnal ac yn fwy sefydlog yn y tymor hir.

Daethom i'r casgliad hwn am i ni daro ein targed amcan gwella ar gyfer cynyddu nifer y gofalwyr maeth mewnol yn y Fro, drwy recriwtio 8 o ofalwyr newydd. Ni fyddwn chwaith yn lleoli plant mor aml gyda gofalwyr maeth allanol. O ganlyniad, byddwn yn gwario llai fesul plentyn ar leoli plant gyda gofalwyr maeth.

100% o'r holl ofalwyr ifainc a oedd yn hysbys i'r Cyngor a gafodd eu hasesu yn ystod y flwyddyn. 91% o asesiadau gofynol a gwblhawyd o fewn y 35 o ddiwrnodau gwaith a argymhellir o'u cymharu â 76% yng Nghymru'n gyffredinol. Mae gan bob plentyn dan ofal, weithiwr cymdeithasol, bydd gan bob plentyn a leolir gynllun gofal o'r dechrau, a bydd 97% o'r holl gynlluniau gofal yn cael eu hadolygu o fewn yr amser penodedig.

Am fod gennym fwy o ofalwyr mewnol erbyn hyn, llwyddwyd i leoli mwy o blant yn lleol gyda gofalwyr addas. Am fod mwy o ddewis o leoliadau, yr ydym yn llwyddo i leoli mwy o blant gyda gofalwyr addas a sicrhau bod lleoliadau'n fwy sefydlog. Nid oes rhaid i bobl ifanc adael eu cynefin er mwyn cael gofal erbyn hyn.

Roedd y rhan fwyaf o ofalwyr yn fodlon ar y gwasanaethau a'r cymorth a oedd ar gael yn ystod y broses. Roedd y bobl ifanc ar y cyfan yn fodlon ar y wybodaeth a roddwyd iddynt.



Ardal y Glannau, y Barri

Parc BelleVue, Penarth

Hen dref Lanilltud Fawr

4. Cefnogi a herio ysgolion er mwyn gwella lefelau cyrraedd disgyblion Cyfnod Allweddol 3.

Roedd ein perfformiad yn ystod 2013/14 (blwyddyn academaidd 2012/13) yn ategu ein casgliad bod yr amcan hwn wedi'i gyflawni. Bydd y gwaith ar gyfer codi safonau a lefelau cyflawniad yn parhau yn y tymor hir er mwyn sicrhau bod ein plant yn cael eu haddsygu ac yn cyflawni i'r safon uchaf bosibl ym mhob cyfnod allweddol. Ar hyn o bryd, yr ydym yn un o'r 4 awdurdod gorau yng Nghymru o ran perfformiad yng Nghyfnod Allweddol 3 ac y mae hynny'n sylfaen dda ar gyfer parhau i wella.

Yn gyffredinol, llwyddwyd i wella ym mhob un o'r 6 mesur yng Nghyfnod Allweddol 3, ac i wella'n gyflymach yn y mesurau hyn nag y gwnaethpwyd yng Nghymru'n gyffredinol. Roedd ein perfformiad yn ôl y Dangosydd Pynciau Craidd⁴, yn rhagori'n sylweddol ar berfformiad y flwyddyn flaenorol, a chododd ein statws o 13eg i 4ydd.

Roedd ein perfformiad mewn darllen, ysgrifennu a sgiliau rhif yn well nag yn ystod y flwyddyn flaenorol oherwydd effaith 'Prosiectau Mawr Ysgrifennu a Mathemateg' ar ysgolion y Fro.

Roedd perfformiad y merched a'r bechgyn wedi gwella'n gyson ym mhob pwnc craidd ac eithrio'r Gymraeg, lle yr oedd perfformiad y bechgyn wedi aros yr un fath yn union.

Roedd mwy na 50% o'n holl ysgolion un ai wedi'u rhestru gyda'r ddau chwarter uchaf yng Nghymru (yn teul wedi cyrraedd safleoedd meincnodi 'uchaf' neu 'uchel') yn y Gymraeg, Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth. Mae hyn yn rhagori ar ein perfformiad yn ystod y flwyddyn flaenorol pan oedd 25% wedi'u rhestru felly mewn Mathemateg ac yn y Pynciau Craidd a 12.5% mewn Saesneg a Gwyddoniaeth.

Drwy ddadansoddi eu data perfformiad yn fanwl, byddwn yn helpu ac yn herio ysgolion i wella. Mae hyn yn ein galluogi i roi cymorth effeithiol yn union lle y mae angen gwella, ac yna sicrhau bod y gwella'n parhau.

⁴ Cyflawni yn ôl y Dangosydd Pynciau Craidd yw cyrraedd y lefel ddisgwyliedig mewn Mathemateg a Gwyddoniaeth ac un ai Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf.

5. Gweithredu cynlluniau effeithiol a chynaliadwy ar gyfer gweithlu'r Cyngor.

Er i ni gyrraedd y targedau arfaethedig ar gyfer y flwyddyn, nod tymor hir i'r Cyngor yw hwn o hyd, a byddwn yn parhau i weithio er mwyn sicrhau ein bod yn y lle gorau posibl i drin y problemau sy'n wynebu llywodraeth leol a'r sector cyhoeddus yn y dyfodol agos.

Drwy uno prosesau cynllunio cyllid ac adnoddau dynol, y mae'n haws i'r Cyngor ddod i wybod faint o bobl, adnoddau, sgiliau a phrofiad a fydd eu hangen ar wasanaethau er mwyn darparu ar gyfer anghenion dinasyddion yn y dyfodol. Rydym yn gweithredu strategaeth adnoddau dynol a hyfforddi bedair blynedd ar hyn o bryd, sy'n ein helpu i nodi a chynllunio ar gyfer anghenion gweithlu'r dyfodol.



Morglawdd, Harbwr y Barri
Pentref Canoloesol Cosmeston
Arfordir Trefadaeth

6. Cysylltu'n well â dinasyddion drwy sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu datblygu a'u gwella yng ngoleuni barn trigolion, a bod mwy o gyfle i drigolion ddylanwadau ar benderfyniadau a gwell darpariaeth ar gyfer hynny.

Er i ni gyrraedd ein targedau arfaethedig ar gyfer y flwyddyn, nod tymor hir i'r Cyngor yw'r amcan hwn, a man cychwyn yn unig yw'r gwaith hyd yma i raglen waith barhaol ar gyfer gwella ein hymgysylltu â dinasyddion y Fro.

Daethom i'r casgliad hwn am i ni greu mwy o gyfle i drigolion ymgysylltu â'r Cyngor yn ystod y flwyddyn a aeth heibio drwy ddewis eang o brosiectau. Mae'r rheiny'n cynnwys ymgynghoriadau amlwg iawn ynghylch dyfodol ein gwasanaeth llyfrgelloedd ac uno dwy ysgol gyfun yn y Fro.

Er mwyn cael cyd-drefnu gweithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu'n well ar draws y Fro, yr ydym wedi llunio Fframwaith Ymgysylltu Cyhoeddus sy'n egluro'r angen am ymgysylltu'n well â dinasyddion y Fro a'r ffordd orau o ddod i ben â hynny.

Buom yn dilyn rhaglen hyfforddi yn y Cyngor yn ystod y flwyddyn a aeth heibio er mwyn gallu cyrraedd ein nodau. Mae ein gallu i hyrwyddo prif brosiectau ymgysylltu cyhoeddus wedi profi'n effeithiol iawn o safbwynt dangos i'r cyhoedd sut i gydweithio â ni a dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio arno. O ganlyniad, cawsom fwy o ymateb a gwell ymateb i ymgynghoriadau cyhoeddus.

7. Mynd i'r afael ag effaith newid hinsawdd gan ganolbwyntio'n benodol ar reoli'r perygl o lifogydd lleol a pheryglon arfordirol.

Rydym wedi cyflawni'r amcan hwn yn rhannol, a byddwn yn parhau i weithio yn y tymor hir er mwyn rheoli'r peryglon sy'n gysylltiedig â manau cychwyn llifogydd lleol. Cymerwyd nifer o gamau i ymdrin â'r perygl llifogydd sy'n codi y sgîl glaw cyson, fflachlifogydd, llifogydd ar yr arfordir ac afonydd sy'n gorlifo. Mae llai o berygl llifogydd yn y Fro erbyn hyn, o ganlyniad.

Cewch weld yr holl wybodaeth ddiweddaraf am lifogydd a phroblemau arfordirol ar ein gwefan. Bydd y Cyngor bob amser yn ymchwilio i achosion o lifogydd a phroblemau draenio. Mae gennym feddalwedd newydd erbyn hyn a fu o gymorth i ni ddefnyddio data'n well wrth fynegi barn am ddatblygiadau newydd a monitro cyrsiau dŵr.

Rydym yn gweithio mewn amryw o leoliadau allweddol yn y Fro erbyn hyn er mwyn lleihau'r perygl o lifogydd a'r costau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol cysylltiedig. Cododd dwy broblem sylweddol ar yr arfordir yn Ionawr a Chwefror 2014, a gwnaethpwyd gwaith trwsio mewn nifer o fannau, gan gynnwys Bae Whitmore a Harbour Road yn Y Barri. Daethpwyd i ben â gwaith atal llifogydd yn Llanccadle er mwyn gwarchod nifer o adeiladau sydd wedi dioddef yn ystod y blynyddoedd diwethaf, oherwydd llifogydd. Newidiwyd Cynllun Lliniaru Llifogydd yn Nalgylch Coldbrook er mwyn ei wneud yn fwy cynaliadwy, a daw i rym ym mis Hydref 2014. Mae Cynllun Lliniaru Llifogydd Llanmaes yn mynd drwy broses debyg.

Mae ein Cynllun Llifogydd a'n Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol yn nodi'r union ardaloedd lle y mae'r perygl i drigolion a busnesau ar ei waethaf. Mae hefyd yn dangos y camau sydd wedi'u cymryd er mwyn sicrhau na fydd llifogydd nac erydu arfordirol yn fwy o berygl i ddatblygiadau yn y Fro ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.



Ysgol Bro Morgannwg

Parc Victoria, y Barri

Y Hwb, y Barri

8. Gostwng nifer y bobl ifanc rhwng 14 a 19 oed nad ydynt mewn gwaith nac addysg nac yn dilyn hyfforddiant.

Mae'r amcan hwn wedi'i gyflawni'n rhannol, a byddwn yn ymdrechu i wella yn y tymor hir drwy Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid Llywodraeth Cymru. Daethom i'r casgliad hwn am na lwyddodd y Cyngor i gyrraedd ei holl dargedau ar gyfer lleihau'r garfan hon, er gwaethaf ymdrech lew.

Ar y cyfan, y byddwn yn dod i wybod yn gynt am bobl ifanc sydd mewn perygl o ddisgyn i gategori 'rhai nad ydynt mewn gwaith nac addysg nac yn dilyn hyfforddiant', ac yn rhoi cymorth priodol yn gynt. Ar y cyd â'n partneriaid, yr ydym wedi datblygu a phrofi system a fydd o gymorth i ni adnabod y rhai sydd mewn perygl o ddisgyn i'r categori hwn yn gynt, ac olrhain eu cynnydd. Bydd pob ysgol yn defnyddio'r system hon.

Datblygwyd gwasanaethau ieuenctid teithiol a fu'n targedu ardaloedd yn y Fro lle y mae'r nifer mwyaf o bobl ifanc yn y categori hwn. Buom yn cydweithio'n agos â'r Ganolfan Byd Gwaith er mwyn datblygu ac ehangu manau cynghori ynglŷn â gwaith. Buom hefyd yn gwneud mwy o ddefnydd o'r cyfryngau cymdeithasol ac yn cynnig cymorth unigol mewn ysgolion er mwyn cael denu mwy o bobl ifanc.

Mae gennym fwy o raglenni addysg amgen yn ein hysgolion uwchradd ac ysgolion arbennig erbyn hyn. Aethom ati hefyd ar y cyd â'n partneriaid i gynnig cyrsiau galwedigaethol blasu a dyddiadau cychwyn hyblyg, a chawsom fwy o ymateb gan bobl ifanc yn y categori hwn, o ganlyniad. Mae gennym gyfarwyddiadur darpariaeth ar gyfer bobl ifanc 'nad ydynt mewn gwaith nac addysg nac yn dilyn hyfforddiant' hefyd, erbyn hyn.

Rydym wedi penderfynu ar y gwaith y bydd angen ei wneud er mwyn ymgysylltu â phobl ifanc a fu dan ofal y Cyngor, a sicrhau na fydd cynifer ohonynt yn disgyn i'r categori hwn, ac y mae hyn yn flaenoriaeth gan y Cyngor.

Drwy amryw fyd o gynlluniau datblygu, y mae'r Cyngor wedi sicrhau bod mwy o gyfle i bobl ifanc yn y categori hwn fanteisio ar brentisiaethau a hyfforddiant. Ers Ebrill 2013, y mae 32 o bobl ifanc yn y categori hwn wedi cael eu cyfeirio at Raglen Waith y Cyngor a 29 o'r rhain wedi cychwyn mewn swydd. Ers 2011, y mae 160 o bobl ifanc yn y categori hwn wedi cael eu cyfeirio at y rhaglen, a 60 o'r rheiny wedi cael swydd.

● Gwybodaeth Ychwanegol

Os hoffech wneud unrhyw sylwadau ar ôl darllen y crynodeb hwn, neu gael mwy o wybodaeth, y mae croeso i chi:

Yn ysgrifenedig: Perfformiad a Datblygiad, Cyngor Bro Morgannwg, Swyddfeydd Dinesig, Heol Holton, Y Barri, CF63 4RU

Drwy e-bost: improvements@valeofglamorgan.gov.uk

Dros y ffôn: 01446 700111

Cewch ymwneud â'n gweithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu, a chynnig amcanion gwella ar gyfer y dyfodol, drwy ymuno â phanel dinasyddion 'Barn y Fro' a chymryd rhan yn yr ymgynghoriadau a gynhelir gan/ar ran y Cyngor a'i bartneriaid, y Bwrdd Gwasanaethau Lleol. Y cyfan sydd angen ei wneud yw llenwi'r ffurflen fer ar-lein.

Barn y Fro



Vale of Glamorgan
Local Service Board
Bwrdd Gwasanaethau Lleol
Bro Morgannwg



VALE of GLAMORGAN

